



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MSc Iechyd y Cyhoedd Cymhwysol

YSGOL CHWARAEON A GWYDDORAU IECHYD

Gwybodaeth Cynefino ac Ymrestru

Blwyddyn academiaidd 2018/2019

CYNNWYS

1. [Croeso gan eich Tîm Addysgu](#)
2. [Amodau cyn-cofrestru \(e.e. DBS/Iechyd Galwedigaethol/Bwrsariaeth GIG\)](#)
3. [Tasgau cyn-cynefino / profiad gwaith / rhestr ddarllen ragarweiniol](#)
4. [Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard](#)
5. [Amserlen Gynefino](#)
6. [Cyflwyniad i'r sesiynau Sgiliau Academaidd](#)
7. [Amserlen Nodweddiadol](#)
8. [Dolenni Defnyddiol](#)

1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Cyflwyniad byr i'ch rhaglen gan gynnwys unrhyw achrediaidau

Croeso i'r MSc mewn Iechyd y Cyhoedd Cymhwysol

Bydd y rhaglen hon yn eich helpu i ddatblygu eich hun fel ymarferydd iechyd y cyhoedd myfyriol, fydd yn gallu cymhwyso egwyddorion allweddol ymarfer iechyd y cyhoedd aml-ddisgyblaeth i ehangder y materion sy'n rhan o iechyd y cyhoedd yn yr 21ain ganrif, gyda chyfeiriad a chymhwysiad penodol i'ch ymarfer eich hun. Rydym yn bwriadu herio eich rhagdybiaethau a'ch hymarfer, yn ogystal â datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau.


Nod y rhaglen a'r tîm addysgu yw darparu awyrgylch cadarnhaol ac adeiladol, a fydd yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth a phrofiad rhwng y staff addysgu, chi eich hun a'ch cyfoedion.

Rydym yn gweithredu polisi drws agored a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw gwestiynau neu faterion y gallech ddod ar eu traws o ran eich astudiaethau a'ch profiad dysgu yn cael sylw mewn modd priodol ac amserol. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw adborth a allai fod gennych yn ystod y rhaglen ac yn eich annog chi i gymryd diddordeb yn natblygiad y rhaglen ac felly eich profiad dysgu eich hun.

Gyda hyn mewn golwg hoffai'r tîm addysgu a minnau eich croesawu i'r rhaglen a gobeithio y byddwch yn mwynhau astudio gyda ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon cyn dechrau'r tymor, mae croeso ichi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r manylion isod.

Cofion cynnes



Alastair Tomlinson
Cyfarwyddwr y Rhaglen, MSc Iechyd y Cyhoedd Cymhwysol

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Western Avenue
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB
Ffôn: 029 2020 1528
E-bost: agtomlinson@cardiffmet.ac.uk

2. Amodau cyn-cofrestru (e.e. DBS/Iechyd Galwedigaethol/Bwrsariaeth GIG)

Nid oes unrhyw amodau cyn cofrestru ar gyfer y rhaglen.

3. Tasgau cyn-cynefino / profiad gwaith / rhestr ddarllen ragarweiniol

Gwahoddir myfyrwyr sy'n cofrestru ar y rhaglen i gwblhau modiwl 'Cyflwyniad i ddysgu ar lefel meistr' am ddim. Bwriad y modiwl yw helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio ar gyfer gradd Meistr.

Mae'r modiwl ar gael ar-lein ac nid oes angen bod yn bresennol ar y campws. Mae'r modiwl ar gael i'w gwblhau o'r cam ymrestru 'Cynnig Amodol / Diamod'.

Bydd mynediad at y modiwl ar gael drwy <https://metconnect.cardiffmet.ac.uk/> gan ddefnyddio manylion mewngofnodi a chyfrinair unigryw a ddarperir gan y brifysgol.

Os ydych eisoes wedi cael mynediad i'r modiwl cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen sscott@cardiffmet.ac.uk.

4. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

YMRESTRU

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn. Caiff cardiau adnabod eu dosbarthu yn ystod y cyfnod cynefino.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe www.cardiffmet.ac.uk/enrolment a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

5. Amserlen Gynefino

Isod, ceir amserlen ar gyfer eich wythnos gyntaf gyda ni. Yn ogystal â dilyn hyn, gallwch hefyd weld mwy o wybodaeth ar yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd ar ein tudalennau Myfyrwyr Newydd (www.cardiffmet.ac.uk/newstudents).

Bydd cynefino yn digwydd ddydd Mawrth 18 Medi, Campws Llandaf (ystafell i'w gadarnhau)

- 2:00pm tan 3:30pm - Cyflwyno'r Rhaglen
- 3:30pm tan 4pm – casglu Cardiau Adnabod gydag egwyl i ddilyn
- 4:30pm tan 5:30pm – taith o'r campws a chynefino â'r llyfrgell
- 5:30pm i 7:00pm – digwyddiad croesawu'r tîm

***Sylwer:** Mae'r amserlen uchod er gwybodaeth yn unig a gallai fod yn destun mân newidiadau o fewn yr amserlen 2pm tan 7pm. Bydd unrhyw newidiadau yn cael ei hysbysu gan Gyfarwyddwr y Rhaglen yn ystod y sesiwn gyntaf.*

6. Cyflwyniad i'r sesiynau Sgiliau Academaidd (wythnos yn dechrau dydd Llun 24 Medi)

Yn ogystal â chynefino â'r rhaglen, rydym yn eich gwahodd i gwblhau wythnos o sesiynau sgiliau academaidd cyn dechrau darlithoedd. Mae'r sesiynau wedi'u cynllunio i helpu i ddatblygu sgiliau academaidd a gwella hyder a gallu i astudio ar lefel gradd Meistr. Maent yn offeryn amhrisiadwy i'r rhai sy'n dychwelyd i'r byd academaidd, a'r rhai sydd wedi dod i mewn trwy'r llwybr profiad proffesiynol.

Mae'r union amserlen ar gyfer y sesiynau i'w chadarnhau. Fodd bynnag mae'r sesiynau yn debygol o ddigwydd yn ystod yr oriau 9am-5pm yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 24 Medi. Byddwn yn cadarnhau yr union amserlen ar gyfer y sesiynau hyn cyn gynted â phosibl.

Mae'r sesiynau yn orfodol fel arfer ar gyfer:

- Yr holl fyfyrwyr rhyngwladol
- Myfyrwyr nad oes ganddynt radd, neu nad ydynt wedi astudio mewn prifysgol o'r blaen
- Myfyrwyr y mae eu cymhwyster gradd blaenorol dros 5 mlwydd oed

Ar gyfer yr holl fyfyrwyr eraill, mae'r sesiynau yn ddewisol – ond rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn mynychu.

Mae'r sesiynau yn gweithio tuag at gyflwyno aseiniad ymarfer ddydd Llun 1 Hydref. **Mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr gwblhau'r aseiniad ymarfer.**

7. Amserlen Nodweddiadol

Cyflwynir y rhaglen mewn cyfuniad o ddarlithoedd gyda'r hwyr (nos Llun a nos Fawrth 4-7pm) ac addysgu bloc. Isod, ceir manylion bras sesiynau Tymor 1. Darperir amserlen fwy manwl ar gyfer myfyrwyr yn ystod y broses gynefino.

Myfyrwyr amser llawn

Bydd myfyrwyr amser llawn (a myfyrwyr rhan-amser blwyddyn 2) yn mynychu **APH7010 Fframweithiau ar gyfer Ymyriadau Iechyd y Cyhoedd** ddydd Llun 1 Hydref rhwng 4.00pm a 7.00pm (mae'r sesiynau yn parhau ar yr un diwrnod ac amser drwy gydol y tymor). **APH7011 Ymarfer Iechyd y Cyhoedd Myfyriol** (hefyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhan-amser blwyddyn 2) yn cychwyn ddydd Llun 8 Hydref, ac yn cynnwys 3 darlith rhwng 2-4pm ar brynhawn dydd Llun.

Myfyrwyr rhan-amser blwyddyn 1

Bydd myfyrwyr blwyddyn gyntaf rhan-amser yn dechrau astudio ar **APH7000 Asesu Iechyd, Llesiant ac Anghyfartaledd** ddydd Mawrth 2 Hydref, rhwng 4.00pm a 7.00pm. Bydd myfyrwyr llawn-amser yn mynychu'r sesiwn hon hefyd.

Addysgu Bloc

Bydd SHS7000 Dulliau Ymchwil Cymhwysol a Dyluniad (myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan-amser blwyddyn 1) yn cael ei ddarparu drwy ddwy sesiwn addysgu dwys (3 diwrnod i gyd) gyda chymorth e-ddysgu drwy Moodle. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-19 wedi'u pennu eto, byddwn yn diweddarau hyn cyn gynted â phosibl. Mae'r diwrnod cyswllt cyntaf yn debygol o fod yn gynnwys ym mis Hydref.

Yn yr un modd, caiff **APH7008 Diogelu Iechyd** (myfyrwyr amser llawn a myfyrwyr rhan-amser blwyddyn 2) ei gyflwyno drwy dri bloc addysgu o 2 ddiwrnod. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer 2018-19 wedi'u pennu eto, a byddant yn cael eu cadarnhau cyn gynted ag y byddant ar gael. Fel arfer mae'r blociau addysgu yn digwydd ym mis Tachwedd, Chwefror a Mawrth/Ebrill (gan ddibynnu pryd mae'r Pasg). Mae yna hefyd asesiad undydd seiliedig ar senario sy'n digwydd yn ystod y cyfnod arholiadau ym mis Mai.

8. Dolenni Defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)
Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)
Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campysau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)
Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)
Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)
I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cyngori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)
I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cyngori personol, anabled a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)
Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys